

Busnes Agored y Cyngor – yn cynnwys cofnodion 1 i 12.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Yn bresennol: John Graystone (yn Cadeirio), Iwan Hywel, Sonia Reynolds (Is-gadeirydd), Daryl Leeworthy, Suzanne Samuel, Caroline Davies, Stephen Nicholls, Toni Schiavone (Is-gadeirydd), Gareth Cork, Jenni Jones-Annetts, Chris Franks, Dafydd Rhys, David Elis-Williams; Cathy Clark (hyd at gofnod 6 yn unig).

Roedd cworwm drwy gydol y cyfarfod.

Yn Mynychu: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad), Stephen Thomas (Ysgrifennydd/Clerc y Cwmni); Siôn Aled Owen (cyfieithydd ar y pryd).

Ymddiheuriadau: Julie Cook, Gerry Jenson, Guy Wallace Smith, Nick Taylor.

2. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 17 Mai 2019 a materion yn codi

Cymeradwywyd cofnodion y trafodion Busnes Agored yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor a gynhaliwyd yng Nglynebwy yn gofnod cywir, yn amodol ar newid i gyfeiriadau a wnaed yng nghofnod 2 y fersiwn Gymraeg, sef at ddwy, ac yna pedair, dysgwr **benywaidd** (dysgwraig). Roedd yr holl bwyntiau gweithredu wedi'u dilyn i fyny a thrafodwyd tri mater yn y cofnodion ymhellach:

Cofnod 3 – Datblygiadau presennol yn ymagwedd Llywodraeth Cymru at addysg bellach ac addysg oedolion: roedd cyfarfod diweddar gydag uwch-was sifil wedi datgelu camddealltwriaeth ar eu rhan ynghylch rhannu'n darpariaeth rhwng cyrsiau wedi'u hachredu a chysiau heb eu hachredu. **Bwriedid dilyn hyn i fyny gyda llythyr, yn amlinellu'r sefyllfa gywir o ran ein cydymffurfiaeth â blaenoriaethau'r Gweinidog yn hyn o beth.**

Cofnod 6 – Cofnodion blaenorol ac Arolygiad Estyn ym mis Ionawr 2019: byddai dangos **effaith** ein hymyriadau addysgol ar ddysgwyr, fel y'i pwysleisir gan Estyn trwy ei bwyslais ar y cwestiwn 'Beth yw'r ots?', yn cael ei ddatblygu trwy roi hyfforddiant i'n rheolwyr ar fesur effaith.

Cofnod 8 – Cofnodion y Pwyllgor Adnoddau (diweddariad ynghylch safle Coleg Harlech): roedd oedi o hyd wrth gwblhau'r gwerthiant oherwydd mater y Gofrestrfa Tir. Rodd Datganiad pellach o Wirionedd wedi'i lofnodi gan gyn-gyflogai i Goleg Harlech/CHWEAN yn cadarnhau bod y ramp i roi mynediad i bobl anabl, y lifft a'r man parcio i'r anabl ar gyfer adeilad y theatr/awditoriwym yn uniongyrchol gysylltiedig â pherchenogaeth yr adeilad gan y sefydliadau hynny. Roedd y prynwr yn parhau'n gwbl ymrwymedig i'r pryniant ac, felly, roedd swm o £200,000 o hyd wedi'i gynnwys yn y rhagolwg ar gyfer cyfrifon diwedd y flwyddyn (gweler cofnod 8 isod). Roedd cais dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ynghylch gwerthiant y safle, wedi'i gyflwyno'n ddiweddar gan grŵp Harlech yn Weithredol.

3. Materion i'w cadarnhau, ac y dylid cytuno arnynt, o'r sesiynau Cynllunio Strategol cynharaf

Ystyriwyd bod themâu'r amgyffrediad o AOC|ALW a'i broffil, yr oedd Jeff Greenidge wedi'u hamlygu fel hwylusydd, yn rhai perthnasol. Byddai'r adborth a gafwyd o'r pum grŵp ymneilltuo yn sesiwn y bore

hwnnw'n cael ei brosesu. **Cytunwyd y byddai 'The National Community College / Y Coleg Cymunedol Cenedlaethol' yn cael ei fabwysiadu'n swyddogol yn is-bennawd i'r sefydliad, i'w argraffu ar ddeunyddiau print a rhithwir, ac na fyddai'r is-deitl 'formerly known as / a elwid gynt' na'r logos blaenorol cysylltiedig yn cael eu defnyddio mwyach. Trafodwyd amrywiadau ar y cynrychioliad hwn ond ni chawsant eu cymeradwyo; fodd bynnag dylai'r geiriau 'and democratic movement for adult education in Wales / a mudiad democrataidd er addysg oedolion yng Nghymru' gael eu hychwanegu wrth gyflwyno AOC|ALW ar lafar.**

Dymunai John Graystone, fel Cadeirydd, gofnodi ei ddiolch i'r staff hynny ac aelodau'r Cyngor a oedd wedi cyfrannu at gyrraedd y sefyllfa lle'r oedd AOC|ALW o hyd yn yr arfaeth i chwarae rhan allweddol mewn newidiadau yn y dyfodol i faes addysg gymunedol oedolion, yn ôl datganiad y Gweinidog Addysg yn gynt yn ystod y mis. **Cyfeiriwyd at effaith gadarnhaol bosibl dod yn sefydliad ag enw parth 'ac.uk', yn ychwanegol at ein henw parth presennol '.wales/.cymru', er y dylid gwirio'r angen i AOC|ALW fod yn barod i dderbyn aelodaeth o'r NUS er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y parth arall hwn.**

4. Adroddiad Llafar y Prif Weithredwr

Siaradodd Kathryn Robson am y materion allweddol a godwyd y bore hwnnw, am barhau i ddilyn i fyny yn sgil arolygiad Estyn, yr archwiliad glân a gynhaliwyd o ddata dysgwyr, y gwarged ariannol a ddisgwyliwyd ar gyfer y sefydliad yn 2018-19 a'r gwelliant araf yn nifer y dysgwyr addysg cyfrwng Cymraeg.

5. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2019

Cyfeiriodd Chris Franks aelodau at y sicrwydd sylweddol yr oedd yr archwiliad mewnol wedi'i roi i Reoliadau Ariannol Allweddol y sefydliad, a balchder y Pwyllgor bod swyddfa Llanisien wedi'i gwerthu. Roedd diffyg llwyddiant o hyd wrth recriwtio i'r swydd codi arian newydd yn bryder fodd bynnag, ac roedd y Pwyllgor wedi gofyn am ychwanegu un risg at y Gofrestr (ynghylch cyfathrebu a marchnata). Byddai gwybodaeth am strategaeth lesiant i staff yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor a byddai'n ddelfrydol pe bai aelod newydd o'r Cyngor wedi'i benodi i'r Pwyllgor erbyn hynny. Nodwyd er mai swyddfa Caerdydd oedd yn gyson gyfleus fel lleoliad i'r Pwyllgor yn ei ffurf bresennol, roedd yn bosibl y dylai amrywio ei leoliadau cyfarfod, yn dibynnu ar leoliad unrhyw benodai newydd. Nododd y Cyngor gynnwys y cofnodion.

6. Y Gofrestr Risg ar gyfer Gorffennaf 2019

Cynigiwyd bod angen, ar achlysur, ddarllen y ddogfen hon mewn modd manwl, fesul pwynt, i ofyn y cwestiynau 'Beth yw'r ots?' perthnasol oedd yn gysylltiedig â hi. Roedd yr holl drafodaeth ar yr achlysur hwn yn canolbwyntio ar y risg newydd ei hychwanegu, sef 6.1.3 - Cyfathrebu a Marchnata. Roedd angen sefydlu targedau mesuradwy ar gyfer nifer yr ymweliadau a gafwyd gan ein gwefan ac ar ein cyfryngau cymdeithasol, a **dylid rhoi adroddiadau rheolaidd i'r Cyngor ar y data hwn**. Hefyd, teimlwyd nad oedd tiwtoriaid wedi llwyr ymroi i bwysigrwydd ac argaeledd marchnata a'i ddeunyddiau, a bod achos o blaid cyfathrebu'n fewnol a hyfforddiant ymhellach ynghylch y rheiny. Crybwyllwyd her arall i'w goresgyn, a godwyd yn Fforwm Rhanbarthol diweddar gogledd-orllewin Cymru, sef bod tiwtoriaid yn cael eu hatal rhag defnyddio marchnata nad oedd yn cydymffurfio â dictadau a thempledi canolog. Wrth fynd heibio, nodwyd nad oedd y lliw cywir wedi'i roi i Risg 6.1.1 (y Safonau Iaith Gymraeg) yn ei cholofn Risg Net.

7. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2019

Cyflwynwyd y rhain yn ffurfiol gan David Elis-Williams ac fe'u nodwyd gan y Cyngor.

8. Cyfrifon Rheoli, Awst 2018 – Mai 2019

Dyweddodd Mark Baines fod rhagamcan o warged o £286,000 ar gyfer y flwyddyn yn deillio o warged o £64,000 mewn materion 'craidd', gyda'r incwm un-tro eithriadol o werthu eiddo Llanisien a Harlech yn ychwanegol at hwnnw. Roedd bron pob un o'r amrywiannau a nodwyd yn rhai wedi'u mantoli, gydag incwm ychwanegol yn digolledu gwariant ychwanegol. Roedd hylifedd, sef £2.7 miliwn, yn hynod iach - yn fwy sylweddol o lawer na'r 3 mis o wariant, sef ein hamcan datganedig. Gofynnwyd a ellid rhoi rhan o'r arian hwn tuag at wariant ar farchnata ychwanegol, gwaith ymchwil neu ddatblygiadau newydd eraill, yn hytrach na chael ei gadw yn unig i warchod rhag caledi ariannol posibl yn y dyfodol. Atgoffodd David Elis-Williams y Cyngor am ei awgrym y dylai cyfran o'r incwm o werthu safle Harlech, yn hytrach na mynd yn syth i gronfeydd wrth gefn y sefydliad, gael ei gwario rywsut ar ddatlu a chofnodi hanes y sefydliad hwnnw.

9. Cyllideb Arfaethedig 2019-20 a Chynllun Tair Blynedd Arfaethedig 2019-20 i 2021-22

Roedd y gyllideb, yr argymhellodd y Pwyllgor Adnoddau ei chymeradwyo yn gynt yn ystod y mis, a'r cynllun tair blynedd, yn cwmpasu cyfnod cymhathu - erbyn dechrau Blwyddyn 3 - y trefniant trosiannol ar gyfer yr £1 filiwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru a drafodwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y Cyngor. Roedd y ffigurau ym Mlwyddyn 3 wedi'u diwygio ychydig yn dilyn sylwadau'r Pwyllgor, i sicrhau gwarged o 0.5%. Bwriadwyd i'r arbedion angenrheidiol o oddeutu £450,000 dros y cyfnod dwy flynedd arweiniol gael eu cyflawni trwy fwy o bwyslais ar gyrsiau mewn Meysydd Pwnc Sector a oedd yn talu mwy fesul dysgwr yr awr, cau ein swyddfa dan brydles yng Nghyffordd Llandudno, peidio â llenwi rhai swyddi gwag ar y staff, a phenodi Rheolwr Datblygu Busnes (codwr arian). Nid oedd y gyfres hon o gynigion cyllidebol mor ddadleuol ag yn y blynyddoedd blaenorol, lle bu angen ailstrwythuro'r staff: ar yr achlysur hwn, roedd cyfres o weithrediadau fesul cam gerbron y Cyngor. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o dyndra'n parhau rhwng y dosbarthiadau mwy (ac felly mwy hyfyw) mewn cyrsiau trefol a'r angen i barhau i hyrwyddo cyrsiau gwledig hefyd. Cadarnhawyd y byddai symiau mwy'n cael eu rhyddhau i'r gyllideb farchnata pe bai arbedion yn cael eu gwneud mewn manau eraill yng nghyllideb 2019-20. Er y nodwyd darbodusrwydd ariannol cymharol y sefydliad ar hyn o bryd, mynegodd rai aelodau'r Cyngor bryder o hyd am y toriadau ariannol posibl a oedd i ddod a'r angen i osgoi diswyddiadau ar bob cyfrif. **Cymeradwyodd y Cyngor y gyllideb ar gyfer 2019-20 a nododd y ffigurau rhagolygol ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol ganlynol.**

10. Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Profiad y Dysgwyr a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2019

Dyweddodd Caroline Davies fod lefel y gwaith wrth wraidd y nifer fawr o bolisiau newydd a gyflwynwyd i'r Pwyllgor wedi creu argraff dda arno. Er y cafwyd gwybod am achosion o danberfformio ar gyrsiau penodol, cwynion gan ddysgwyr a materion diogelu, roedd y rhain yn eu ffordd oll yn dangos bod prosesau priodol ar waith i dynnu sylw'r sefydliad cyfan i broblemau neu broblemau posibl. Nododd y Cyngor gynnwys y cofnodion.

Gadawodd John Graystone y cyfarfod tra cynhaliwyd trafodaeth fer ar gofnod cyfrinachol yn ymwneud ag Agored Cymru, oherwydd gwrthdaro buddiannau ar ei ran. Bu Toni Schiavone yn y gadair ar gyfer y mater hwnnw. Rhoddodd Mark Baines wybod bod hwn yn fater hanesyddol a oedd yn mynd yn ôl 12 mis a mwy, ynghylch nifer bach o gyrsiau dan arweiniad partneriaeth ym mhortffolio'r tîm Cyflawni Cenedlaethol. Sylwyd yn fewnol, ymlaen llaw, ar broblemau yn ymwneud â'u cysondeb wrth wirio ansawdd y cyrsiau hyn ac roedd dulliau rheoli newydd, priodol, wedi'u rhoi ar waith o ganlyniad.

11. Adborth ar gyfarfod y Cyngor

Cafwyd adborth cadarnhaol ar y clustffonau cyfieithu ar y pryd newydd a gynigiwyd, ac ar gyflwyno bathodynau enw. Cadarnhawyd bod y penderfyniad a wnaed yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor, sef bod angen neilltuo diwrnod llawn i'r broses Cynllunio Strategol o 2020 ymlaen, yn benderfyniad cywir.

12. Dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd cysylltiedig eraill a gadarnhawyd ar gyfer 2019-20

- Dydd Llun 23 Medi 2019: Abertawe
- Dydd Mawrth 26 Tachwedd: Wrecsam
- Dydd Llun 27 Ionawr 2020: Caerdydd
- Dydd Iau 12 Mawrth: Y Drenewydd
- Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol – Dydd Iau 2 Ebrill: Merthyr Tudful neu Sain Ffagan
- Dydd Mercher 20 Mai: Glynebwy
- Diwrnod Cynllunio Strategol – Dydd Iau 2 Gorffennaf: Llandrindod
- Dydd Iau 23 Gorffennaf: Bangor

PWYNTIAU GWEITHREDU

| Cyfeirnod | Teitl y cofnod | Cam gweithredu y cytunwyd arno | Gweithredu gan bwy | Gweithredu erbyn pryd |
|-----------|--|--|-----------------------|-----------------------|
| Cofnod 2 | Cofnodion Busnes Agored cyfarfod y Cyngor ar 17 Mai 2019 a materion yn codi | Byddai llythyr yn cael ei anfon at weision sifil, yn amlinellu'r sefyllfa gywir o ran ein cydymffurfiaeth â blaenoriaethau'r Gweinidog yn gysylltiedig â darpariaeth wedi'i hachredu/heb ei hachredu. | KR / MB | Gorffennaf 2019 |
| Cofnod 3 | Materion i'w cadarnhau, ac y dylid cytuno arnynt, o'r sesiynau Cynllunio Strategol cynharach | Cytunwyd y byddai 'The National Community College / Y Coleg Cymunedol Cenedlaethol' yn cael ei fabwysiadu'n swyddogol yn is-bennawd i'r sefydliad, i'w argraffu ar ddeunyddiau print a rhithwir, ac na fyddai'r logos a'r is-deitl 'formerly known as / a elwid gynt' yn cael eu defnyddio mwyach. Dylai'r geiriau 'and democratic movement for adult education in | KR / Jonathan Goddard | Awst 2019 |

| | | | | |
|----------|--|--|-----------------------|-----------|
| | | <p>Wales / a mudiad democrataidd er addysg oedolion yng Nghymru' gael eu hychwanegu wrth gyflwyno AOC ALW ar lafar.</p> <p>Cyfeiriwyd at effaith gadarnhaol bosibl dod yn sefydliad ag enw parth 'ac.uk', yn ychwanegol at ein henw parth presennol 'wales/.cymru', er y dylid gwirio'r angen i AOC ALW fod yn barod i dderbyn aelodaeth o'r NUS er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y parth arall hwn.</p> | KR / MB / CH | |
| Cofnod 6 | Y Gofrestr Risg ar gyfer Gorffennaf 2019 | Dylid sefydlu targedau mesuradwy ar gyfer nifer yr ymweliadau a geir gan ein gwefan ac ar ein cyfryngau cymdeithasol, a dylid rhoi adroddiadau rheolaidd i'r Cyngor ar y data hwn. | CH / Jonathan Goddard | Medi 2019 |
| Cofnod 9 | Cyllideb Arfaethedig 2019-20 a Chynllun Tair Blynedd Arfaethedig 2019-20 i 2021-22 | Cymeradwyodd y Cyngor y gyllideb ar gyfer 2019-20 a nododd y ffigurau rhagolygol ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol ganlynol. | MB / Adele Gatt | Awst 2019 |